# Adroddiad Arolygu ar

**Cartref Gofal Preswyl Min y Mor**

**Cartref Preswyl Min y Mor**
**Maes yr Heli**
**Aberaeron**
**SA46 0BQ**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

11 Tachwedd 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Preswyl Min y Mor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg a diwylliant pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio |

## Crynodeb

Pwrpas yr arolygiad â ffocws hwn yw adolygu un Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth sydd ar agor ynglŷn â goruchwyliaeth y darparwr.

Mae pobl yn parhau i dderbyn gofal a chymorth unigol sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r darparwr wedi cymryd camau tuag at wella'r amgylchedd ac mae ganddo gynllun clir i gwblhau'r gwaith.

Mae'r darparwr wedi gwella goruchwyliaeth o'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r cartref ac yn cynnwys pobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr gofal yn eu hadroddiad ansawdd gofal.

## Llesiant

Mae’r bobl yn derbyn cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn mwynhau gweithgareddau ysgogol fel cwisiau dyddiol sy'n annog pobl i ryngweithio a chael hwyl. Mae gweithwyr gofal yn parchu pobl ac yn deall eu hanghenion; dywedodd un unigolyn wrthym *“mae'r staff yn wych”.* Mae’r staff yn ystyried amgylchiadau unigol pobl trwy eu cynorthwyo i gwblhau llyfrau bywyd gyda'u teulu a'u ffrindiau i adrodd stori eu bywyd.

Mae’r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ac yn mynegi eu barn ar y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn bwriadu mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynglŷn â'r cyfyngiadau ymweld ac mae wrthi'n adolygu'r canllawiau ymweld. Mae’r bobl yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'r gwaith adnewyddu, dewisodd person baent ‘melyn cennin pedr’ ar gyfer waliau ei ystafell wely. Pan fydd y gwaith wedi'i orffen, y gobaith yw y bydd yr amgylchedd yn gwella lles pobl trwy helpu cyfeiriadedd a gwneud y gorau o dechnoleg sy'n cefnogi pobl â heriau i’r cof.

Gall pobl hefyd fynegi eu barn ar y gwasanaeth oherwydd bod yr unigolyn cyfrifol yn eu cynnwys a/neu eu cynrychiolwyr mewn archwiliadau sicrhau ansawdd. Mae staff yn cyfrannu syniadau a chynigion er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth yn ystod ymweliadau chwarterol yr unigolyn cyfrifol. Mae gwybodaeth o archwiliadau ac arolygon mewnol yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth. Mae camau clir a chynllun amser yn galluogi'r darparwr i wella'r gwasanaeth cyffredinol maent yn ei gynnig i bobl.

## Gofal a Chymorth

Nid oedd gofal a chymorth yn ganolbwynt i'r arolygiad hwn, ond mae ein trafodaethau â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref unwaith eto'n dangos bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion iechyd a llesiant pobl.

Siaradodd pobl yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Mae rhyngweithiadau yn gefnogol ac yn gyfeillgar. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"Dwi wir yn gwerthfawrogi'r gwaith mae'r staff yn ei wneud i ni".* Dywedodd unigolyn arall wrthym yn frwdfrydig am yr hwyl maent yn ei gael â'r gweithwyr, y teulu a'i ffrindiau wrth greu eu llyfrau atgofion.

Mae arferion hylendid da yn parhau trwy gydol y gwasanaeth. Mae'r staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir ac yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Yr Amgylchedd

Nid oedd yr amgylchedd yn ffocws i'r arolygiad hwn, fe’i nodwyd gennym yn flaenorol fel maes i'w wella. Mae'r darparwr wedi cychwyn rhaglen adnewyddu a fydd yn gwella iechyd a llesiant unigolion.

Mae gwelliannau i'r tir a'r llwybrau wedi dechrau ac mae’r gwaith addurno mewnol wedi dechrau. Mae'r unigolyn cofrestredig wedi sicrhau cyllid i wneud y gwelliannau angenrheidiol i'r adeilad. Maent yn disgwyl cwblhau'r gwaith erbyn mis Mawrth 2022 a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi gwella eu trefniadau i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r adroddiad diweddaraf Rheoliad 73yn gynhwysfawr ac yn cynnwys sawl trafodaeth â phobl a'u cynrychiolwyr. Siaradodd y gweithwyr a wnaeth gyfarfod â'r unigolyn cyfrifol yn gadarnhaol am yr ymweliad a'r cyfle i drafod y gwelliannau. Nid oedd y rhai nad oeddent wedi cyfarfod â'r unigolyn cyfrifol yn ymwybodol o'r cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r cynrychiolwyr yn falch o fod yn rhan o'r gwasanaeth ond maent am weld newidiadau i'r canllawiau ymweld. Cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol fod ymweliadau yn cael eu hasesu'n unigol o ran risg ac y gellir eu cynnal y tu mewn i'r cartref. Mae'r darparwr yn adolygu ei bolisi ymweld ym mis Rhagfyr 2021.

Mae'r Adolygiad Ansawdd Gofal chwe mis yn fanwl ac yn cynnwys adborth gan bobl a'u cynrychiolwyr. Mae gwybodaeth o archwiliadau ac arolygon mewnol yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth gyda chamau clir ar sut i wella ansawdd. Mae'r rhaglen adnewyddu yn ffocws allweddol i'r adroddiad.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu heb reolwr ar hyn o bryd ac mae gan yr unigolyn cyfrifol gynllun wrth gefn i lenwi'r swydd wag. Mae'r unigolyn cyfrifol yn bwriadu cyfarfod â staff y gwasanaeth ar sail un-i-un i dderbyn eu hadborth ac i gyfleu'r cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth.

Gallwn ddod i'r casgliad bod yr oruchwyliaeth o'r gwasanaeth gan yr unigolyn cyfrifol wedi gwella a'i fod yn canolbwyntio ar welliannau i'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl y lefel hon o oruchwyliaeth i barhau a bydd hyn yn mynd ar drywydd hyn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 6 | Goruchwyliaeth a Llywodraethu'r Darparwr | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Mae hwn yn faes i'w wella a gariwyd drosodd o arolygiad ar 17.08.2021 a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf i roi digon o amser i'r darparwr fynd i'r afael â'r materion. Mae'r tir yn flêr. Y tu mewn mae'r gwaith paent wedi crafu ar fyrddau sgertin a fframiau drysau, papur wal yn plicio a charpedi wedi'u treulio. Mae ffenestri wedi difrodi ac mae'n anodd gweld trwyddynt. Nid yw'r amgylchedd yn cynorthwyo llesiant pobl ac mae'n bosibl ei fod yn peri risg i bobl. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 01/02/2022'